**Y PWYLLGOR BUSNES**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD AR GYNIGION I NEWID RHEOLAU SEFYDLOG Y CYNULLIAD YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 26.1**

Ar 11 Ebrill a 9 Mai 2000 ystyriodd y Pwyllgor Busnes gynigion ar gyfer diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

Mae pob un o Aelodau'r Pwyllgor wedi cytuno ar y cynigion canlynol a chânt eu cymeradwyo i'r Cynulliad. Mae newidiadau manwl i'r Rheolau Sefydlog wedi eu cynnwys yn y Cynnig a osodwyd gyda'r adroddiad hwn.

**Rheol Sefydlog 19**

Ceir nodyn esboniadol sy'n esbonio'r diwygiad yn yr Atodiad.

**Rheol Sefydlog 22 Rhan 1 (Diwygiad 2)**

Diben y diwygiad yw delio â sefyllfaoedd lle mae angen i Orchymyn drafft sy'n ddarostyngedig i Ran 1 o Reol Sefydlog 22 gael ei newid am resymau teipograffaidd a gramadegol neu fân newidiadau drafftio a wnaed wedi iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfau (ond cyn iddo fynd gerbron y cyfarfod llawn). O dan y Rheolau Sefydlog fel y maent wedi eu drafftio ar hyn o bryd byddai'n rhaid i'r Gorchmynion fynd drwy holl gamau Rhan 1 eto. Mae'r diwygiad yn galluogi'r Ysgrifennydd Cynulliad i gyflwyno Memorandwm Cywiriad a gaiff ei ystyried law yn llaw â'r Gorchymyn pan gaiff ei gyflwyno i'r cyfarfod llawn.

**Rheol Sefydlog 27**

Gwelliant canlyniadol yw hwn i alluogi'r Pwyllgor Penderfyniad Cynllunio i gyfarfod yn ystod toriad er mwyn ystyried mater sydd o bwysigrwydd cyhoeddus brys.

**Jane Davidson**

**Dirprwy Lywydd**

**Cadeirydd, Y Pwyllgor Busnes Mai 2000**

**Atodiad**

## NODYN AR Y NEWIDIADAU I REOL SEFYDLOG 19

### Amcanion

Amcanion y gwelliannau i Reol Sefydlog 19 yw:

- Rhoi rhagor o hyblygrwydd o ran y cyfnod sy'n cael ei ddarparu ar gyfer dyrannu'r gyllideb;
- Nodi amserlen fwy synhwyrol ar gyfer rownd cynllunio'r gyllideb;
- Gwneud amrywiol gamau rownd cynllunio'r gyllideb yn fwy eglur a'u symleiddio;
- Caniatau cyllideb atodol, ar sail gyfyngedig;
- Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer dyrannu gwariant y Cynulliad yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r blaen ddyraniadau;
- Gwneud hi'n fwy eglur pwy sy'n gyfrifol am osod yr adroddiadau ar gyllid llywodraeth leol;
- Derbyn mân bwyntiau drafftio.

### Cefndir

Yn gyffredinol mae Rheol Sefydlog 19 wedi gwneud ei gwaith yn effeithiol. Mae wedi galluogi prif gyllideb gyntaf y Cynulliad, a dyraniadau yn ystod y flwyddyn, i gael eu penderfynu yn unol â'r amserlen ac wedi iddynt gael eu harchwilio gan Aelodau'r Cynulliad a'i Bwyllgorau. Ar y cyfan mae system y prif grwpiau gwariant (MEGs), yr is-grwpiau gwariant (SEGs) a llinellau gwariant y gyllideb (BELs) yn weddol ddealladwy, a'r gobaith yw y bydd y gwelliannau a wneir i ddisgrifiadau cyllidebau 2000-01 yn gwella'r ddealltwriaeth o'r llinellau unigol ymhellach.

Mae'r System Rheoli Gwybodaeth (MIS) ar y wefan wedi cael ei diweddaru yn union ar ôl pob un o benderfyniadau'r Cynulliad fel ei bod yn cynnwys rhestr ddiweddar o gyllidebau'r Cynulliad. Caiff yr MIS ei datblygu ymhellach yn ystod 2000-01 fel ei bod hefyd yn darparu ffigurau gwariant ar gyfer bob un o'r cyllidebau.

Er hynny, mae'n amlwg bod llawer o ddiffygion yn Rh S 19 fel y mae ar hyn o bryd a diben y diwygiadau hyn yw gwella'r sefyllfa.

Bwriedir i'r Rheolau Sefydlog diwygiedig ddod i rym ar unwaith wedi iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad; mae'n bosibl na fydd manylion yr adroddiadau ar gyllid llywodraeth leol (gweler isod) yn dod i rym hyd nes setliad 2002-03.

**<u>Penderfynu Cyllideb y Cynulliad</u>**

**<u>(Mae’r rhifau yn cyfeirio at y Rheolau Sefydlog diwygiedig arfaethedig)</u>**

**<u>19.1</u>**

Un o wendidau’r amserlen bresennol yw nad oes digon o amser i’r Cynulliad a’r Pwyllgorau ystyried y gyllideb ddrafft. Felly mae’r gwelliant yn ei gwneud hi’n ofynnol i’r Ysgrifennydd Cyllid ddechrau ar y broses ynghynt, a gwahodd sylwadau gan y Pwyllgorau yn ystod Mai. Yna byddai’r Pwyllgor yn ymateb erbyn diwedd Gorffennaf. Byddai hyn yn galluogi’r gyllideb drafft i gael ei chyflwyno ynghynt. Dangosir hyn yn yr amserlen yn Atodiad A.

Yr ail bwynt y mae’r gwelliant yn mynd i’r afael ag ef yw’r ffaith bod cyfnod y gyllideb o dan y Rheol Sefydlog fel y mae ar hyn o bryd yn dair blynedd – y flwyddyn ddilynol, a’r ddwy flynedd wedi hynny. Efallai na fydd hyn yn cyfateb â’r cyfnodau cyllido o dan Adolygiadau Gwariant y Llywodraeth. Er enghraifft pan aeth y Cynulliad ati i bennu’r gyllideb yn Rhagfyr 1999, fe wnaeth hynny ar gyfer y cyfnod 2000-01 hyd 2002-03; fodd bynnag, mae’r flwyddyn olaf y tu allan i gyfnod yr Adolygiad Gwariant presennol ac nid oes gennym waelodlin ar gyfer y gyllideb Gymreig yn 2003-03. Felly mae pennu’r gyllideb, hyd yn oed cyllideb fynegiannol, yn broses braidd yn ddisynnwyr. Er mwyn cyflwyno peth hyblygrwydd i’r system, byddai’r gwelliant yn galluogi’r Ysgrifennydd Cyllid i gyflwyno’i chynigion ar gyfer y gyllideb am gyfnod o’i dewis hi. Y sefyllfa arferol fyddai cyllideb fanwl ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol, gyda darpariaethau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd a fyddai’n dilyn hynny; fodd bynnag, pe na bai gwaelodlinau ar gael o dan Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU ar gyfer y ddwy flynedd hynny yna gellid pennu’r dyraniadau dros dro ar gyfer cyfnod byrrach.

**<u>19.2/19.3</u>**

Mae’r Rh S presennol yn cyfeirio at "gyllideb ddrafft gyntaf", "cyllideb ddrafft" a "chyllideb fanwl", er mwyn adlewyrchu’r tri cham sy’n rhan o’r broses gyllido. Fodd bynnag, bernir bod y dull hwn yn drwsgl ac nid yw’r trydydd cam, yn arbennig, yn ychwanegu rhyw lawer. Felly bwriedir diddymu’r ddau gam:

- Fel arfer ym mis Hydref, bydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn cynnig cyllideb ddrafft. Bydd hon

yn cynnwys manylion hyd at lefel BEL.;
- Byddai'r gyllideb ddrafft yn cael ei thrafod yn y cyfarfod llawn o dan gynnig "cymryd sylw";
- Byddai Ysgrifenyddion y Cynulliad yn ymgynghori â'u pwyllgorau perthnasol ar y gyllideb ddrafft, ac yn mynegi barn y Pwyllgorau i'r Ysgrifennydd Cyllid;
- Fel arfer ym mis Tachwedd (er o bosibl yn gynnar ym mis Rhagfyr) byddai'r Ysgrifennydd Cyllid yn cyflwyno cyllideb ddrafft. Byddai hon yn cael ei chyflwyno ar y cyd â chynnig i fabwysiadu'r gyllideb derfynol; ni fyddai'r cynnig yn ddarostyngedig i welliant.

Byddai'r dull dau gam hwn yn rhoi gwell sicrwydd i gyrff megis awdurdodau iechyd, awdurdodau lleol a chyrff gwirfoddol ynghylch eu dyraniadau cyllideb cyn y Nadolig, yn hytrach na'u bod yn gorfod aros hyd Chwefror iddynt gael eu mabwysiadu yn llawn.

**19.4**

Er hynny, mae'n bosibl y bydd angen newid y gyllideb derfynol cyn diwedd Mawrth am ddau brif reswm:

- Gall Prif Amcangyfrif y Llywodraeth gynnwys newidiadau na chawsant eu rhagweld adeg cyllideb fis Rhagfyr – yn arbennig trosglwyddiadau o/i Adrannau'r Llywodraeth, ac unrhyw gyllid ychwanegol a gyflwynwyd gan Gyllideb Wanwyn y Canghellor; ac
- Efallai y byddai y byddai angen cyflwyno newidiadau technegol – er enghraifft trosglwyddiadau rhwng BELs os caiff swyddogaeth ei symud ee mae ariannu Techniquest wedi cael ei symud o CBDC i'r Cynulliad.

Mae'r cynnig wedi ei eirio fel ei fod yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd sydd ar gael i'r Ysgrifennydd Cyllid ar y ddau fater hyn; yn sicr ni fyddai'r Ysgrifennydd Cyllid (neu bleidiau gwleidyddol eraill) yn gallu ail agor setliad terfynol y gyllideb.

Byddai'r cam hwn yn cael ei alw'n "gyllideb atodol" a byddai'n ddarostyngedig i gynnig, na fyddai'n gallu cael ei wella.

**Addasu Gwariant y Cynulliad yn ystod y flwyddyn**

**19.5**

Dim ond delio â throsglwyddiadau rhwng MEGs trwy gyfrwng cynnig y mae'r Rheol Sefydlog bresennol. Nid yw'n delio â newidiadau i brif grwpiau gwariant (ee dyrannu arian sy'n cael ei ddwyn ymlaen o flynyddoedd blaenorol) nac ychwaith sefydlu MEGs newydd. Diben y gwelliant hwn yw delio â'r holl newidiadau i'r MEGs, neu â sefydlu MEGs newydd, trwy gynnig; ni fyddai'r cynnig yn ddarostyngedig i welliant.

**19.6**

Pwyntiau drafftio canlyniadol yn unig.

**19.7**

Pwyntiau drafftio canlyniadol yn unig.

**Adroddiadau ar Gyllid Llywodraeth Leol**

**19.8**

O dan y Rheol Sefydlog bresennol Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad sy’n gyfrifol am gyflwyno adroddiadau ar gyllid llywodraeth leol; byddai’n fwy rhesymegol i’r Ysgrifennydd Cynulliad sy’n gyfrifol am gyllid llywodraeth leol gyflwyno’r adroddiadau hyn law yn llaw â’r swyddogaethau eraill sydd ganddynt ar gyfer llywodraeth leol.

**19.9**

Fel 19.8, a phwyntiau drafftio canlyniadol.

Mae gan y newidiadau arfaethedig i amseriad y gyllideb a nodwyd uchod oblygiadau ar gyfer proses y setliad llywodraeth leol, ond gellir eu cynnwys heb iddynt effeithio ar y trefniadau statudol ac ymarferol sy’n rheoli setliadau cyllid llywodraeth leol.

**O dan y rheolau sefydlog diwygiedig, byddai’r adroddiad cyllid llywodraeth leol yn cynnwys yr wybodaeth statudol y gofynnwyd amdani ar gyfer Cymru gyfan yn unig. (yn wahanol i adroddiad eleni a gyhoeddwyd ar ffurf drafft gyda manylion llawn o’r Asesiadau Gwariant Safonol (SSA) ar gyfer bob awdurdod). Caiff ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori ym mis Hydref** yn hytrach nag yn Rhagfyr. Yn y dyfodol, bydd y cyhoeddiad dros dro blaenorol ar ddechrau Rhagfyr yn cael ei gyhoeddi ar ffurf cyhoeddiad terfynol a fydd yn cynnwys y rhan fwyaf o elfennau’r setliad refeniw**, gan gynnwys SSAs dros dro**. (Caiff SSAs yr heddlu eu cyhoeddi ar wahân.)

Ni chynigir y dylai’r dyddiad cau o 15 Chwefror ar gyfer newidiadau **terfynol i’r dosbarthu** gael eu newid gan y byddai unrhyw estyniad yn gwrthdaro ag amserlen statudol sydd gan yr

awdurdodau lleol ar gyfer pennu eu cyllidebau.

**19.10**

Newidiadau canlyniadol yn unig.